OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 676 (Cy.99)

CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

Rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2011

Gwnaed - - - -	*2 Mawrth 2011*
Yn dod i rym - -	*25 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 23(10) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007(**1**) ("Gorchymyn 2007") ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn—

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 25 Mawrth 2011.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "cyfrif" ("*account*") yw cyfrif a gyflwynir o dan erthygl 23(7) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ar gyfer talu costau swyddog canlyniadau etholaeth neu swyddog canlyniadau rhanbarthol ar gyfer etholiad Cynulliad neu mewn cysylltiad ag ef;

(b) mae "etholaeth y Cynulliad" ("*Assembly constituency*") i'w ddehongli yn unol ag adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;

(c) mae "rhanbarth etholaethol y Cynulliad" ("*Assembly electoral region*") i'w ddehongli yn unol ag adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;

(ch) ystyr "Gorchymyn 2007" ("*the 2007 Order*") yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007;

(**1**) O.S. 2007/236.
(**2**) Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno, cafodd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.